



Perchennog/Meddiannydd

Fy nghyf / My ref:
IF088/DK

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad:
24 Hydref 2017

Annwyl Berchennog/Meddiannydd

**Cynllun Arfaethedig - Dim Aros ar Unrhyw Adeg (Llinellau Melyn Dwbl)
Coed Dowlais, Pentre'r Eglwys - Ymgynghoriad â'r Trigolion**

Yn dilyn pryderon ynghylch cerbydau wedi'u parcio mewn modd peryglus neu sy'n achosi rhwystr, mae'r Cyngor yn paratoi cynlluniau arfaethedig i gyflwyno cyfyngiadau aros (llinellau melyn dwbl) ar hyd darn o Goed Dowlais, Pentre'r Eglwys.

Mae'r Cyngor yn ysgrifennu at drigolion perthnasol i roi gwybod iddyn nhw am y cynlluniau arfaethedig ac i roi cyfle i drigolion gael dweud eu dweud.

Mae manylion y cynllun i'w gweld yn y llun sydd ynghlwm wrth y llythyr yma, T2017/92/1. Efallai y byddwch chi'n dymuno gweld y cynlluniau arfaethedig ar wefan www.rctcbc.gov.uk/traffig

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynigion yma. Amgaeaf ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod, er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost i gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 14 Tachwedd 2017. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad oes sylwadau gyda chi ar y cynnig.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y broses o ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau y byddwn ni'n eu derbyn yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Dylan Kelleher
Technegwr, Materion Rheoli Traffig | Traffic Technician, Traffic Management
Ffôn: 01443 494894



Owner / Occupier

My Ref / Fy Nghyf:
IF088/DK

Your Ref / Eich Cyf:

Date / Dyddiad:
24th October 2017

Dear Owner/Occupier

**Proposed No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines)
Coed Dowlais, Church Village - Residents Consultation**

Following concerns regarding dangerous / obstructive parking, the council are currently developing proposals to introduce waiting restrictions (double yellow lines) along a section of Coed Dowlais, Church Village.

The council is writing to all affected residents to advise of the proposals and provide the opportunity for residents to submit their observations and or make comment.

Details of the proposals are shown on the attached drawing T2017/92/1. You may also wish to view the proposals at www.rctcbc.gov.uk/traffic

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 14th November 2017. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance.

Dylan Kelleher
Technegwr, Materion Rheoli Traffig | Traffic Technician, Traffic Management
Telephone: 01443 494894